# EDWARDS, JOHN ('Siôn y Potiau '; c. 1700 - 1776)

**Enw:** John Edwards
**Ffugenw:** Siôn Y Potiau
**Dyddiad geni:** c. 1700
**Dyddiad marw:** 1776
**Plentyn:** Abel Jones
**Plentyn:** Cain Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Garfield Hopkin Hughes

Ganwyd yn Glyn Ceiriog - efallai mai ef yw'r John mab Edward Jones a fedyddiwyd yno 27 Rhagfyr 1699. Cofnodir claddu 'John Edwards the Welsh Poet' yn Llansantffraid Glyn Ceiriog, 28 Rhagfyr 1776, a dywedir bod ei gartref am gyfnod yn ymyl y fynwent. Adroddir iddo adael ei grefft fel gwehydd yn fuan ar ôl priodi a threulio saith mlynedd yn Llundain fel cynorthwywr i lyfrwerthwr - y mae'r ymryson a fu rhyngddo a Jonathan Hughes yn ategu hyn. Mab iddo oedd Cain Jones yr almanaciwr, a gwneir yntau hefyd yn almanaciwr gan Charles Ashton ac eraill. Yr oedd yn un o feirdd eisteddfodau 'r 18fed ganrif - y Bala 1738, Glyn Ceiriog 1743, ' Slattyn ' 1748, etc. - a nodau beirdd yr eisteddfodau sydd ar lawer o'i gerddi, yn arbennig ar ei gyfansoddiad enwocaf, y 24 englyn i glochdy eglwys Llangollen, 1749. Lluniodd gyfieithiad o'r ail a'r drydedd ran o'r *Pilgrim's Progress*. Cyhoeddwyd yr ail ran gan Stafford Prys - yn 1761-2, mae'n debyg, a barnu oddi wrth 'Rybudd' y cyfieithydd (168), ac nid yn 1767 fel y dywed William Rowlands ('Gwilym Lleyn'). Argraffwyd y drydedd ran 'tros Ddafydd Llwyd o'r Bala ' yng Nghaerlleon yn 1768 - enwir Robert Llwyd o'r Bala yn yr ail ran fel cyfaill i'r cyfieithydd. Hwn oedd y cyfieithiad Cymraeg cynharaf o'r drydedd ran.

## Awdur

**Garfield Hopkin Hughes**, (1912 - 1969)

## Ffynonellau


*Y Tyst Apostolaidd*, v, 1850, 136

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 503

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 338, etc.

J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (1908-11)

*Almanac* (1776, 1777, 1779, 1780), 1776, 1777, 1779, 1780

*Almanac* (1740, 1743, 1744), 1740, 1743, 1744


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6231366

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu